



## Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Carmel**

**Neuadd y Pentref  
Carmel  
Caernarfon  
LL54 7AA**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

05/11/2021

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.**

*Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Mae'n rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Carmel

Math o ofal a ddarperir	Gofal dydd plant Gofal dydd sesiynol
Darparwr cofrestredig	Cylch Meithrin Carmel
Lleoedd cofrestredig	12
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	<a href="#">Mewnosod â llaw</a> Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	<a href="#">Mewnosod â llaw</a>
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

<a href="#"><u>Llesiant</u></a>	<b>Nid oes angen sgôr</b>
<a href="#"><u>Gofal a Datblygiad</u></a>	<b>Nid oes angen sgôr</b>
<a href="#"><u>Yr Amgylchedd</u></a>	<b>Nid oes angen sgôr</b>
<a href="#"><u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u></a>	<b>Nid oes angen sgôr</b>

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## **Crynodeb**

Mae plant yn cyfathrebu yn hyderus ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni/gofalwyr ac yn ymgynffwrdd eu hunain â'r drefn ddyddiol yn briodol. Mae plant yn dysgu sut i rannu, cymryd eu tro, a bod yn garedig â'u ffrindiau. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth ac yn dysgu trwy chwarae yn effeithiol. Mae staff yn deall y rhan fwyaf o'u cyfrifoldebau ar gyfer cadw plant yn ddiogel ac yn iach ac mae rhyngweithiadau yn gadarnhaol. Mae gweithgareddau wedi'u trefnu'n dda ac yn canolbwyntio ar ddiddordebau plant. Mae staff yn hyrwyddo gweithgareddau awyr agored er mwyn meithrin sgiliau corfforol a hunanhyder plant yn dda. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn rheoli Cylch Meithrin Carmel yn briodol. Maent yn adolygu ansawdd y gofal yn addas ac yn amlygu gweledigaeth yr unigolyn cyfrifol ar gyfer dyfodol y lleoliad. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn datblygu partneriaethau cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Llesiant

Mae plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, gan ffurfio cydberthnasau, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol.

Mae plant yn hapus, gan ein cyfarch trwy godi llaw a gwenu wrth i ni fynd i mewn i'r ystafell chwarae. Maent yn hyderus ac yn cyflwyno eu hunain ac yn dweud eu henwau wrthym. Mae plant wedi'u cyffroi, gan siarad am yr arddangosiadau tân gwylt y byddant yn mynd i'w gweld â'u rhieni.

Mae plant yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hyderus y bydd eu teimladau, eu hoffterau a'u casbethau yn cael eu hystyried. Er enghraifft, pan nad oedd plentyn eisiau eistedd mewn cylch i wrando ar stori, cafodd gymorth gan staff a chyfle i ymlacio a chwarae gweithgaredd tawelach.

Mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Dywedodd plentyn wrthym yn hyderus ei fod yn mwynhau dod yma oherwydd ei fod yn mwynhau gwyllo ei ffrindiau yn gwneud trê'n hir. Maent yn mwynhau'r achlysur cymdeithasol amser bwyd ac yn sgwrsio am ba frechdanau sydd ganddynt yn eu bocsys bwyd o adref. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch. Mae plant yn dysgu sut i rannu a chymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd pobi, roeddent yn cymryd eu tro i dorri'r siocled yn ofalus a'i roi mewn powlen.

Mae plant yn ymarfer defnyddio eu synhwyrâu yn weithredol. Er enghraifft, maent yn mwynhau rhoi eu dwylo a'u bysedd mewn detholiad o wahanol liwiau o baentiau i wneud llun o dân gwylt. Wrth chwarae, maent yn gwrando ar drac sain o synau natur fel adar yn canu a dŵr yn llifo. Mae hyn yn helpu i greu awyrgylch tawel. Wrth baratoi ar gyfer noson tân gwylt, gwnaeth plant afalau taffi siocled. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddyd wrth iddynt drochi a throelli eu hafalau yn y siocled wedi toddi.

Mae plant wedi ymgysylltu'n llawn yn ystod amser stori ac yn cael llawer o hwyl yn rhyngweithio trwy ofyn ac ateb llawer o gwestiynau, gan symud eu cyrff a chanu. Mae plant yn awyddus i ddysgu am siapiau a lliwiau. Er enghraifft, lliwiodd un plentyn lun o roced, trwy weithio allan ac enwi pa liw oedd yn mynd â phob siâp.

Mae plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae un plentyn yn mwynhau ei amser yn y gornel ddarllen, gan ddewis ei hoff lyfr a dangos y lluniau sydd yn neidio allan wrthym. Cyn mynd allan i chwarae, mae plant yn gwisgo eu cotiau. Ar ôl chwarae, maent yn mynd i olchi eu dwylo a dangos i ni sut maent yn gosod y papur sychu dwylo yn y bin. Mae plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan staff.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan staff agwedd gyfeillgar a gofalgar ac maent yn rheoli rhyngweithiadau yn gadarnhaol. Maent yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gan y rhan fwyaf o staff ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn gweithredu'r polisïau yn addas. Mae staff yn cofnodi presenoldeb plant a'u hunain er mwyn cadw cofnod cywir o bwy sy'n gofalu am blant. Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn briodol ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân i sicrhau bod plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd rhaid iddynt adael yr adeilad mewn argyfwng ac mae'r canlyniad yn cael ei gofnodi.

Mae staff yn annog plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol mewn modd cadarnhaol. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau ac mae'r rhain yn cael eu llofnodi gan rieni i gydnabod eu bod yn cael eu hysbysu. Mae staff yn hyrwyddo arferion iach - er enghraifft, maent yn darparu dŵr yfed i blant er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o ddŵr. Maent yn trefnu gweithgareddau chwarae da yn yr awyr agored, gan annog plant i chwarae yn yr awyr iach er mwyn meithrin eu sgiliau corfforol.

Mae staff yn trefnu gweithgareddau yn effeithiol ac yn rhoi cymorth i blant ddatblygu eu chwarae a'u dysgu mewn modd cadarnhaol. Maent yn rhoi cymorth i blant feithrin eu sgiliau meddwl. Er enghraifft, pan wnaeth plentyn sylw am yr hadau y tu mewn i'w afal, gofynnodd staff fwy o gwestiynau i'r plentyn yn ysgafn, a arweiniodd at drafodaeth ddiddorol am blannu a thyfu.

Mae staff yn annog plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i godi eu hymwybyddiaeth am ble maent yn byw a'r swyddi gwahanol mae pobl yn eu gwneud. Maent yn rhoi cymorth i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae lluniau yn dangos plant yn dal y ffa dringo y gwnaethant eu tyfu, yn rhoi dŵr i'r planhigion tomato, ac yn ymweld â'r anifeiliaid mewn cae gerllaw.

Mae staff yn cydnabod ac yn rhoi cymorth sydd ag anghenion ychwanegol yn dda. Maent yn gwneud defnydd priodol o wasanaethau cymorth. Maent yn olrhain cynnydd a datblygiad y plant yn addas. Mae staff yn sicrhau bod hoffterau a diddordebau plant yn cael eu hystyried er mwyn i anghenion unigol y plant gael eu diwallu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall plant chwarae a dysgu. Maent yn cwblhau asesiadau risg yn briodol, gan nodi'r peryglon posibl i blant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn.

Ers COVID-19, maent wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb am sut y byddant yn delio ag argyfyngau. Maent yn sicrhau bod staff yn goruchwyllo plant yn dda.

Mae gosodiad yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant; gallant symud o gwmpas yn rhydd gan wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae ystod eang o deganau ac adnoddau ar gyfer yr oedrannau sy'n derbyn gofal ac mae gan blant fynediad at ddodrefn o faint priodol.

Mae ardaloedd dysgu wedi'u trefnu'n dda ac mae dewis da o adnoddau naturiol i feithrin sgiliau synhwyrdd, ieithyddol, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae teganau ac adnoddau yn addas ac o fewn cyrraedd i blant; mae hyn yn eu helpu i wneud penderfyniadau am yr hyn maent eisiau chwarae ag ef.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn codi ymwybyddiaeth plant o fyd natur trwy ddarparu cyfleoedd iddynt hau hadau a phlannu blodau. Mae rhai adnoddau amlddiwylliannol i godi ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas ehangach. Maent yn defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu a deunyddiau cartref yn effeithiol i addurno'r gornel gartref ac i helpu i ddatblygu dychymyg plant trwy chwarae rôl.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi datblygu'r ardal chwarae awyr agored, gan roi mwy o gyfleoedd i blant chwarae yn yr awyr iach. Mae'r ardal hon wedi ei threfnu'n ddeniadol ag ystod o offer i blant ddewis ohonynt a meithrin eu sgiliau corfforol a sgiliau echddygol manwl mewn modd cadarnhaol

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n cynnal Cylch Meithrin Carmel yn sicrhau bod gan blant ganlyniadau llesiant da. Mae ganddynt wybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau rheoliadol.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi ysgrifennu datganiad o ddiben, sy'n rhoi gwybodaeth i rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig, ond nid ydynt wedi cynnwys y wybodaeth am y trefniadau i adolygu'r ddogfen ac i hysbysu AGC am newidiadau i'r lleoliad o fewn 28 diwrnod. Mae polisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith ond nid yw pob un o'r rhain wedi cael eu llofnodi ac nid oedd dyddiad yr adolygiad mwyaf diweddar wedi ei nodi.

Mae'r polisi diogelu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ond nid yw rhywfaint o wybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys, megis pwy yw'r arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer y lleoliad. Mae gan y bobl sy'n cynnal y gwasanaeth ddealltwriaeth ragorol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg yn llawn.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn llawn gwybodaeth ac yn tynnu sylw at welliannau a wnaed, yn ogystal â gweledigaeth yr unigolyn cyfrifol ar gyfer dyfodol y lleoliad. Mae sylwadau gan rieni a phlant wedi cael eu casglu a'u cynnwys yn yr adroddiad adolygu i ddangos beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a pha welliannau allai gael eu gwneud. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi cynnwys y sylwadau gan staff ac asiantaethau eraill a fyddai'n helpu'r bobl sy'n cynnal y lleoliad i nodi meysydd ar gyfer datblygiad pellach wrth symud ymlaen.

Mae gwiriadau datgelu a gwahardd a hyfforddiant perthnasol y bobl sy'n cynnal y lleoliad yn gyfredol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi sicrhau bod rhieni'n cwblhau'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnod eu plentyn i sicrhau bod staff yn gallu diwallu eu holl anghenion unigol.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn cadarnhau bod staff yn derbyn sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau rheolaidd ac mae eu perfformiad yn cael ei gofnodi. Nid yw'r holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yn ffeiliau'r staff i sicrhau addasrwydd unigolyn ar gyfer ei rôl.

Mae sylwadau gan rieni yn yr adroddiad adolygu ansawdd gofal yn gadarnhaol. Maent yn dweud pa mor ddiolchgar ydynt i Gylch Meithrin Carmel am aros ar agor am y rhan fwyaf o'r amser yn ystod y pandemig ac maent wedi disgrifio'r gofal i'w plant fel 'rhagorol'.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn ymgysylltu'n dda â'u cymuned. Mae lluniau o blant yn eu dangos yn mwynhau eu hamser yn chwarae ac yn ymgysylltu â'u hamgylchoedd lleol i gyflawni gwell sgiliau cymdeithasol.



## **Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Adolygu gweithdrefnau diogelu yn ystod goruchwyliaeth â staff i sicrhau eu bod yn hyderus am y camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon. Sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn hygyrch yn y polisi diogelu.

A2: Llofnodi a nodi'r dyddiad adolygu mwyaf cyfredol wrth adolygu polisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg.

A3: Cynnwys yr holl sylwadau a gasglwyd gan y rhai sy'n defnyddio'r lleoliad yn yr adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal er mwyn cynorthwyo gwelliannau wrth symud ymlaen.

## Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

## Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

**Maes/Meysydd i'w Gwella**

Rheoliad	Crynodeb	Statws
28	Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â Rheoliad 28 oherwydd nad yw wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yn ffeiliau'r aelodau o staff. Archwiliwyd dwy ffeil staff ac nid oedd y rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol – er enghraifft, llun diweddar, tystysgrif geni, dau eirida ysgrifenedig, swydd-ddisgrifiad a datganiad iechyd.	Newydd
30	Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi sicrhau ei fod wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol gan rieni mewn perthynas â'r plant yr oedd yn gofalu amdanynt. Gwnaethom archwilio cofnod unigol plentyn ond nid oedd y manylion cyswllt ar gyfer yr ymarferydd meddygol y mae'r plentyn wedi'i gofrestru ag ef wedi'u nodi'n llawn gan nad oedd rhif ffôn na chyfeiriad llawn.	Newydd

Sgoriau	Ystyr y sgoriau
<b>Rhagorol</b>	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
<b>Da</b>	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
<b>Digonol</b>	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
<b>Gwael</b>	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

**Dyddiad cyhoeddi 04/01/2022'**